

***Grŵp Adolygu Canllawiau
Amdiffyn Plant Cymru Gyfan***

***All Wales Child Protection
Procedures Review Group***



PROTOCOL CYMRU GYFAN

RHEOLI POBL IFANC SY’N CYFLAWNI YMDDYGIAD RHYWIOL NIWEIDIOL

Terfynol:	Hydref 2012
Awdur:	AWCPPRG
Gweithredu:	
Adolygu:	

CYNNWYS:

CYFLWYNIAD	TUDALEN	3
		4
PROSES – ATGYFEIRIO		
GWEITHREDU AR UNWAITH		4
CYFARFOD STRATEGAETH		5
ASESIAD ARBENIGOL		6
POBL IFANC Y MAE'R HEDDLU'N YMCHWILIO IDDYNT		7
PROSES/ADOLYGIAD PARHAUS		7
ATODIAD 1		8
ATODIAD 2		9
ATODIAD 3		10

DRAFFT

CYFLWYNIAD

Deallir bod plant a phobl ifanc yn gyfrifol am hyd at un rhan o dair o'r achosion o gam-drin eraill yn rhywiol. Mae'r protocol hwn wedi'i fwriadu i sicrhau cysondeb ledled Cymru lle ceir pryder proffesiynol y gall plentyn neu berson ifanc fod wedi cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol. Dylid darllen y protocol hwn ar y cyd â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008) (AWCPP) a Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan y Ddeddf Plant (2004/2006).

Statws y protocol hwn

Mae'r protocol hwn yn berthnasol i holl staff a gwirfoddolwyr asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Dylai asiantaethau sicrhau bod gweithdrefnau/canllawiau/protocolau rhyngasiantaethol neu fewnol eraill yn gyson â'r ddogfen hon. Mae'r protocol hwn yn disodli holl brotocolau presennol Byrddau Lleol Diogelu Plant ar reoli pobl ifanc sy'n cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol.

Cwmpas y protocol hwn

Mae'r protocol hwn yn berthnasol i'r holl blant a phobl ifanc hyd at 18 oed sydd wedi, neu yr honnir eu bod wedi, cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae hyn yn cynnwys ymddygiad tuag at blentyn, cyfoed neu oedolyn. Mae'r protocol hwn yn berthnasol pa un a oes achos troseddol yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r person ifanc ai peidio. Yr ymddygiadau sy'n gyfystyr ag ymddygiad rhywiol niweidiol yw'r rheiny a nodir yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 ac a ddisgrifir yn Atodiad 1. Cydnabyddir nad yw'r mwyafrif o blant a phobl ifanc sy'n cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol yn derbyn gwarediadau troseddol. Nid oes terfyn oedran isaf ar gyfer plant y mae'r protocol hwn yn berthnasol iddynt.

Nid yw'r protocol hwn wedi'i fwriadu i gael ei ddefnyddio mewn perthynas â gweithgarwch rhywiol nad yw'n deillio o gamfanteisio ac a gytunwyd ar y cyd rhwng pobl ifanc 13-16 oed. Dylid ystyried gweithgarwch o'r fath gan gyfeirio at 'Brotocol Cymru Gyfan ar Ddiogelu a Hybu Lles Pobl Ifanc sy'n Weithredol yn Rhywiol' (a5.4 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008). Fodd bynnag, ni ddylai honiad am weithgarwch rhywiol heb gydsyniad sy'n ymwneud â phobl ifanc yn y grŵp oedran hwn gael ei ddiystyru fel rhywbeth normal neu 'arbrofol' ac mae'n rhaid ei ystyried gan gyfeirio at y gweithdrefnau yn y protocol hwn.

Nid yw plant dan 13 oed yn gallu rhoi cydsyniad yn gyfreithiol i weithgarwch rhywiol. Felly, mae'n rhaid i unrhyw weithgarwch rhywiol honedig sy'n ymwneud â phlentyn dan 13 oed a pherson ifanc arall gael ei ystyried dan y protocol hwn.

Dylid nodi y dylai anghenion plentyn neu berson ifanc sy'n cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol gael eu hystyried ar wahân i anghenion ei d(d)ioddefwr (a4.9.1 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008). Mewn rhai achosion, lle ceir nifer o honiadau neu bryderon, efallai na fydd y cyfrifoldeb am yr ymddygiad yn glir i ddechrau. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen ymchwiliadau ac/neu asesiadau pellach. Fodd bynnag, ni ddylid cynnal cyfarfodydd sy'n ystyried cyflawnwyr a dioddefwyr honedig ar y cyd â'i gilydd.

Mae'r protocol hwn yn berthnasol lle ceir honiad o ymddygiad rhywiol niweidiol sy'n

ymwneud â phlentyn neu berson ifanc neu lle ceir pryder proffesiynol digonol mewn perthynas â pherson ifanc ac ymddygiad rhywiol niweidiol posib. Mae'r protocol hwn yn un mor berthnasol lle mae'r person ifanc yn gwadu'r ymddygiad. Mae gwadu'n beth cyffredin ymhlith pobl ifanc sy'n niweidio'n rhywiol ac ni ddylai hyn, na bodolaeth neu ddiffyg bodolaeth erlyniad arfaethedig, effeithio ar y broses a nodir isod.

Pwrpas y protocol hwn

Mae'r protocol hwn yn nodi'r ymateb amlasiantaeth cyd-drefnedig y cyfeirir ato yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008):

'Dylai fod dull cyd-drefnedig o ymdrin â honiadau o gam-drin rhywiol gan blant a phobl ifanc sy'n cynnwys y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid yn ogystal â'r gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd (gan gynnwys seicoleg addysg a lles addysg), y gwasanaeth iechyd (gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed) a gwasanaethau ymddygiad niweidiol arbenigol lle y bônt ar gael.' (a4.9.1).

Mae hyn yn gorchymyn dull cydweithredol rhwng asiantaethau lles plant a chyfiawnder troseddol. Mae'n cydnabod bod plant a phobl ifanc sy'n cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol yn debygol o fod ag anghenion sylweddol eu hunain, a hefyd y gallant achosi risg sylweddol o niwed i eraill. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallant fod wedi dioddef amhariad sylweddol yn eu bywydau, y gallant fod wedi bod yn agored i drais yn y teulu, y gallant fod wedi cael eu cam-drin, y gall fod ganddynt anawsterau addysgol ac/neu y gallant fod wedi cyflawni troseddau eraill (Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant, 2006).

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r weithdrefn a ddylai gael ei dilyn gan yr asiantaethau sy'n rhan o'r gwahanol gamau o'r broses o'r amser y caiff yr achos ei atgyfeirio tan yr amser y caiff y camau ymyrryd perthnasol eu cwblhau.

PROSES

Atgyfeirio

'Dylid ymdrin mewn modd difrifol â phob achos honedig o gam-drin gan blant a phobl ifanc a dylid wastad eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol ac/neu'r heddlu' (a4.9.1, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008)

Pan mai'r heddlu yw'r asiantaeth gyntaf i ddod yn ymwybodol o honiad o'r fath, mae'n rhaid iddynt atgyfeirio'r achos ar unwaith at y gwasanaethau cymdeithasol. Dylid ystyried mai atgyfeiriad amddiffyn plant yw hwn a dylai gael ei reoli yn unol â'r gweithdrefnau yn Rhan 3 o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008).

Mae'n rhaid i unrhyw weithiwr proffesiynol neu asiantaeth unigol sydd â phryder y gall plentyn neu berson ifanc fod wedi cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol, hyd yn oed os nad oes cwyn benodol, atgyfeirio ei b/phryderon at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc â hanes o ymddygiad rhywiol niweidiol sydd wedi symud o un awdurdod lleol yng Nghymru i ardal arall.

Mae gan bob gweithiwr proffesiynol ddyletswydd i ystyried y posibilrwydd o niwed i blant a phobl ifanc (a5.4.3.1, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008). Lle credir bod person ifanc dan 13 oed wedi bod yn rhan o weithgarwch rhywiol, mae'n rhaid gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant, oni bai fod yr asiantaeth yn dod i benderfyniad a

gofnodir i beidio â gwneud hynny. Lle mae person ifanc o unrhyw oed yn honni bod gweithgarwch heb gydsyniad wedi digwydd, dylid wastad atgyfeirio hyn at y gwasanaethau cymdeithasol (a5.4.6.1-3, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008).

Gweithredu ar unwaith

Ar ôl atgyfeiriad, mae'n rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ddilyn gweithdrefnau amddiffyn plant fel y nodir yn Rhan 3 ac a4.9.2 o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008. Bydd hyn yn golygu cwblhau Asesiad Cychwynnol ac fe all trafodaeth strategaeth gael ei chynnal.

Mae'n rhaid gwneud ymholiadau ac ymchwiliadau ar wahân mewn perthynas â'r dioddefwr a'r camdriniwr honedig. Dylid neilltuo gweithwyr cymdeithasol gwahanol i'r dioddefwr a'r camdriniwr honedig, gan gynnwys achosion lle maent yn byw ar yr un aelwyd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth berthnasol a gafwyd o ymholiadau mewn perthynas â'r dioddefwr a'r cyflawnwr honedig. Dim ond unwaith y dylid casglu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ddau (a4.9.2 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan).

Cyfarfod Strategaeth

Oni bai fod yr Asesiad Cychwynnol neu'r Drafodaeth Strategaeth yn dod i'r penderfyniad nad oes unrhyw bryderon mewn perthynas ag ymddygiad rhywiol niweidiol gan y plentyn neu'r person ifanc, yna mae'n rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol gynnwys Cyfarfod Strategaeth. O dan y protocol hwn, diben penodol y cyfarfod hwn yw ystyried y person ifanc yr honnir ei f/bod wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae'n gyfarfod gwahanol i unrhyw gyfarfodydd eraill sy'n ystyried y dioddefwr(yr) honedig.

Dylid cynnal y Cyfarfod Strategaeth cyn gynted ag y bo'n bosib ar ôl cwblhau'r Asesiad Cychwynnol ac o fewn 8 niwrnod gwaith i'r atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol.

Dylid ystyried sut y caiff gwybodaeth o'r cyfarfod/am y cyfarfod ei rhannu â'r person ifanc a'i d/theulu.

Y gwasanaethau cymdeithasol sy'n cynnull ac yn cadeirio'r Cyfarfod Strategaeth. Rheolwr tîm neu swyddog ar reng uwch na hynny fydd yn gweithredu fel cadeirydd. Gellir rhoi'r rôl hon i reolwr tîm cynorthwyol trwy gytundeb penodol gyda'r BLIDP. Bydd y gweithiwr cymdeithasol sydd wedi cwblhau'r Asesiad Cychwynnol yn bresennol yn y cyfarfod. Bydd cofnodion ffurfiol yn cael eu cymryd ac mae'n arfer da cylchredeg cofnodion i'r holl bobl a oedd yn bresennol o fewn 5 niwrnod gwaith. Mae'r cofnodion yn gofnod cyfrinachol ac ni ddylid eu datgelu heb ganiatâd cadeirydd y cyfarfod strategaeth.

Mae'n dra dymunol bod yr holl asiantaethau proffesiynol sy'n gweithio gyda'r person ifanc, neu sydd â gwybodaeth arbenigol am bobl ifanc sy'n cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol, yn cael eu cynnwys yn y Cyfarfod Strategaeth. Mae'n rhaid ystyried estyn gwahoddiadau i'r asiantaethau canlynol ym mhob achos:

- gwasanaethau cymdeithasol (cadeirydd a gweithiwr cymdeithasol perthnasol)
- yr heddlu
- addysg
- iechyd (gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed)
- gwasanaeth troseddau ieuencid

- darparwr gwasanaeth maethu
- gwasanaeth ymddygiad rhywiol niweidiol arbenigol
- rheolwr a gweithiwr allweddol mewn uned breswyl
- unrhyw asiantaeth broffesiynol arall sy'n gweithio gyda'r person ifanc

Mae Adran 3.5.2 o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn datgan bod yn rhaid i'r heddlu a staff gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd â gweithwyr proffesiynol eraill o wasanaethau addysg neu bobl eraill a all gynorthwyo gyda phroses gynllunio'r ymholiadau wastad fod yn bresennol yn y cyfarfod strategaeth.

Dylid trefnu bod gwybodaeth o gyfweiliadau'r heddlu ar gael i'r cyfarfod hwn. Dylai gwybodaeth am ymwneud presennol neu flaenorol y person ifanc a'i d/theulu â'r holl asiantaethau sy'n bresennol fod ar gael i'r cyfarfod hefyd. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffactorau a nodir yn Atodiad 2 o ran trafodaethau a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r ymddygiad rhywiol niweidiol honedig.

Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant ystyried sut i sicrhau ymwneud gan wasanaeth neu unigolyn sy'n arbenigo mewn asesu pobl ifanc ag ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae'n hollbwysig bod y rheiny yr ymgynghorir â hwy'n meddu ar wybodaeth briodol am, a phrofiad briodol o bobl ifanc ag ymddygiad rhywiol niweidiol a bod trefniadau rheoli a goruchwyllo priodol ar waith ganddynt. Lle nad yw'n bosib i rywun fod yn bresennol yn y Cyfarfod Strategaeth, yna dylai cytundebau fod wedi'u sefydlu ar gyfer ymgynghoriadau dros y ffôn.

Dylai'r cyfarfod wneud penderfyniad gwybodus o ran

- dim gweithredu pellach
- cymorth 'plentyn mewn angen'
- Asesiad Craidd
- asesiad arbenigol gan wasanaeth/ unigolyn sy'n gweithio gyda phobl ifanc ag ymddygiad rhywiol niweidiol
- Ymholiadau amddiffyn plant neu gynhadledd amddiffyn plant dan A47

Mae'n rhaid i'r cyfarfod ystyried y person ifanc yng nghyd-destun ei d/theulu, ei (h)ysgol a'i g/chymuned. Mae'n rhaid i'r Asesiad Cychwynnol fod ar gael. Bydd y cyfarfod yn trafod y digwyddiad honedig a bydd yn ymwybodol o erlyniad posib. Dylid rhoi ystyriaeth benodol i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill nad ydynt yn bresennol.

Mae'n rhaid i'r cyfarfod ystyried strategaethau i'w rhoi ar waith ar unwaith i reoli risgiau a diogelu er mwyn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn. Mae'n rhaid i'r ystyriaethau hyn gael eu gwneud, ni waeth beth fo'r statws o ran erlyn neu wadu, ac mae'n rhaid iddynt fod yn seiliedig ar yr holl wybodaeth berthnasol. Cydnabyddir y bydd trefniadau goruchwyllo'n newid wrth i wybodaeth bellach godi, ond mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i ddiogelu'r rheiny y gallai person ifanc fod yn achosi risg iddynt.

Mae'n rhaid i strategaethau rheoli risgiau a'r holl argymhellion/camau gweithredu gael eu cofnodi'n eglur. Yn benodol mewn perthynas â rheoli risgiau, gallai hyn gynnwys

- gwneud ceisiadau i rieni/ gofalwyr parthed goruchwyliaeth yn y cartref/ yn y gymuned
- disgwyliadau ar gyfer trefniadau goruchwyllo yn yr ysgol
- ystyried datgeliadau wrth eraill lle y bo'n briodol

Fe allai'r person ifanc fod mewn perygl neu mewn angen a chan hynny mae'n rhaid iddo ef/iddi hi gael ei (h)ystyried yn y Cyfarfod Strategaeth hefyd. Bydd Cynhadledd Amddiffyn Plant yn cael ei hargymell yn dilyn ymchwiliadau dan a47 lle teimlir bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perygl o niwed yn ei r(h)inwedd ei hun. Cydnabyddir bod plant a phobl ifanc sydd wedi niweidio'n rhywiol *'yn debygol o fod yn blant mewn angen; bydd rhai ohonynt hefyd yn dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol, a gall fod angen eu hamddiffyn hwy eu hunain'* (a 4.9.4, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008).

Cyfeirier at adran 3.5.3 o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Materion i'w trafod yn y cyfarfod strategaeth.

Mae siart llif o'r broses wedi'i atodi fel Atodiad 3.

Asesiad arbenigol

Bydd y Cyfarfod Strategaeth yn ystyried yn benodol yr angen am asesiad gan wasanaeth arbenigol ar gyfer pobl ifanc sy'n cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol neu gan unigolyn sy'n meddu ar sgiliau addas ac yn cael ei r(h)eoli'n addas. Mae Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan y Ddeddf Plant (2004) yn datgan y dylid cynnal asesiad o'r person ifanc yr honnir iddo/iddi gyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol ym mhob achos (a.9.40). Hefyd, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn cydnabod pwysigrwydd ymateb cyd-drefnedig a phwysigrwydd gwybodaeth arbenigol am bobl ifanc sydd wedi niweidio'n rhywiol (Key Elements of Effective Practise, 2008).

Bydd asesiadau o'r fath yn trafod lefel y risg a achosir gan y person ifanc ac yn diffinio'r rheiny a all fod fwyaf mewn perygl ac unrhyw ysgogiadau a ffactorau sefyllfaol/amgylcheddol perthnasol. Bydd yr asesiad yn cyfrannu at gynllunio a rheoli risgiau a bydd felly'n cyfrannu at ddiogelu. Gall yr asesiad hefyd adnabod anghenion y person ifanc mewn modd mwy cyfannol ac ystyried ymyrraeth i wella'i l(l)es. Bydd yr asesiad arbenigol hefyd o gymorth i gwblhau'r asesiad craidd. O ystyried y graddfeydd amser ar gyfer comisiynu asesiadau arbenigol, gall hyn fod yn anodd i'w gyflawni o fewn y raddfa amser ar gyfer cwblhau asesiadau craidd ac efallai na fydd asesiad arbenigol yn briodol tra bo unrhyw achos troseddol (fel isod) yn yr arfaeth.

Pobl ifanc y mae'r heddlu'n ymchwilio iddynt

Ym mhob achos lle mae'r heddlu'n ymchwilio i honiad bod person ifanc wedi cyflawni trosedd rhyw, mae'n rhaid iddynt atgyfeirio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol o fewn 24 awr. Bydd yr heddlu'n cyfrannu at y Drafodaeth Strategaeth a byddant yn bresennol yn y Cyfarfod Strategaeth. Bydd yr heddlu'n darparu gwybodaeth am yr honiad ac erlyniad tebygol.

Cydnabyddir mai Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), ar y cyd â'r heddlu, sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch erlyn plant a phobl ifanc yn seiliedig ar feini prawf sefydledig. Gall fod oedi cyn cwblhau asesiad ymddygiad rhywiol niweidiol arbenigol lle mae ymchwiliad gan yr heddlu'n mynd rhagddo neu lle mae erlyniad yn yr arfaeth. Bydd y Cyfarfod Strategaeth a chyfarfodydd amlasiantaeth dilynol yn parhau i dderbyn gwybodaeth gan yr heddlu am ddatblygiadau mewn perthynas ag ymchwilio/erlyn. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth lawn i drefniadau priodol ar gyfer rheoli risgiau a diogelu pa un a oes erlyniad yn digwydd ai peidio, lle mae pryderon yn parhau.

PROSES/ADOLYGIAD PARHAUS

Rhagwelir y bydd y mwyafrif llethol o bobl ifanc yn cael eu rheoli o fewn systemau

amddiffyn plant, plentyn mewn angen ac/neu droseddau ieuencid. Bydd y cyfarfodydd amlasiantaeth parhaus o fewn y systemau hyn yn adolygu asesiadau, ymchwiliadau a strategaethau diogelu perthnasol mewn perthynas â'r plentyn neu'r person ifanc.

Os yw Cynhadledd Amddiffyn Plant yn rhoi enw'r person ifanc ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, yna grwpiau craidd a'r cynllun amddiffyn plant fydd y dull ar gyfer cynnal y broses gynllunio amlasiantaeth. Os nad yw enw'r person ifanc yn cael ei roi ar y gofrestr, neu ar unrhyw adeg ddilynol pan fo enw'r plentyn yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr, mae'n rhaid ystyried a ddylai'r person ifanc gael ei d/thrin fel 'plentyn mewn angen'.

Lle ystyrir bod y plentyn neu berson ifanc yn 'blentyn mewn angen', yna mae'n rhaid trefnu cyfarfodydd plentyn mewn angen rheolaidd i hwyluso ymwneud amlasiantaeth parhaus â chynllunio ar gyfer y person ifanc.

Lle mae'r person ifanc yn cael ei r(h)eoli gan y gwasanaeth troseddau ieuencid, mae'r ymwneud yn debygol o fod ar y cyd ag ymwneud gan y gwasanaethau cymdeithasol, lle ystyrir bod y person ifanc 'mewn angen', neu fod angen ei (h)amddiffyn.

Lle gofynnir am asesiad ymddygiad rhywiol niweidiol arbenigol, neu lle caiff asesiadau eraill eu harchebu o ganlyniad i'r honiadau o ymddygiad rhywiol niweidiol (er enghraifft asesiad iechyd), yna mae'n rhaid i ganlyniadau asesiad(au) o'r fath gael eu hystyried yn y strwythur ar gyfer cyfarfodydd amlasiantaeth parhaus.

Atodiad 1

Diffiniadau: 'plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol'.

Gall fod yn anodd pennu'r ffin rhwng ymddygiad sy'n gamdriniol ac ymddygiad sy'n rhan o blentyndod arferol neu arbofi. Gall gyfeirio at unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n cyflawni gweithred rywiol, naill ai yn groes i ewyllys y dioddefwr neu heb gydsyniad gwybodus. Nid yw plant bach yn gallu rhoi cydsyniad gwybodus, er eu bod o bosib yn cydymffurfio â'r ymddygiad. Gellir sicrhau cydymffurfiaeth trwy ymosodedd, defnyddio, ofn, llwgrwobrwyo a.y.b. Dylem ystyried anghydraddoldebau o ran oedran, pŵer, statws, maint corfforol, swydd o awdurdod a.y.b. wrth benderfynu ynghylch dynameg bosib gweithgarwch rhywiol a phobl ifanc.

Mae ymddygiad rhywiol niweidiol yn cwmpasu ystod o ymddygiadau sy'n cynnwys dinoethi organau cenhedlu, cyffwrdd, treiddio – â phidyn neu â gwrthrych – a thrwy'r geg, trwy'r wain neu drwy'r anws. Gall hefyd gynnwys achosi i blant gymryd rhan neu annog plant i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, aflonyddu/ bygythiadau rhywiol a chael mynediad at ddelweddau anwedus o blant. Cyfeirier at [Ddeddf Troseddau Rhyw 2003](#)

Atodiad 2

Materion i'w hystyried wrth benderfynu pa un a oes pryderon ynghylch plentyn neu berson ifanc ag ymddygiad rhywiol niweidiol:

- gwahaniaethau o ran pŵer, e.e. oedran, rhyw, lefel datblygiad, awdurdod
- cyfreithlondeb yr ymddygiad
- cydsyniad – arwyddion o ddychrynu, twyll, defnyddio, gorfodi
- a yw'r ymddygiad yn cyd-fynd â datblygiad rhywiol arferol?
- unrhyw nodweddion sy'n gyfystyr ag ymddygiad cymhellol/ cyson iawn
- natur ffantasiau rhywiol neu ddiddordebau/obsesiynau rhywiol amrywiol
- natur esboniadau i gyfiawnhau ymddygiad
- cwynion gan blant/pobl ifanc eraill
- natur yr ymddygiad yn gwaethygu
- y modd y daeth yr ymddygiad i'r amlwg
- safbwyntiau gelyniaethus ynghylch menywod ifainc/ safbwyntiau sy'n gefnogol i ymosodiad rhywiol
- safbwyntiau sy'n gefnogol i gyswllt rhywiol rhwng plant yn eu harddegau a phlant llai
- pryderon eraill/ ymddygiad arall

I blant llai dylid hefyd ystyried:

- priodoldeb yr ymddygiad i oedran y plentyn
- gwybodaeth am archwilio rhywiol arferol
- ymdrechion i sicrhau cyfrinachedd
- parhad yr ymddygiad
- ymddygiad mewn ymateb i gam-drin h.y. ymateb i'w (g)weithred ef/hi ei hun o gam-drin
- amgylchedd agos y plentyn (bod y plentyn o bosib yn agored ar hyn o bryd i amgylchedd lle mae rhywioldeb yn amlwg neu lle mae cam-drin gwirioneddol yn digwydd)

Atodiad 3

ymchwiliad gan yr heddlu

CAMAU GWEITHREDU POSIB

- dgp
- Rhybudd Terfynol/ Cerydd
- cyhuddo'r person ifanc o drosed

Bydd camau gweithredu gan yr heddlu'n cydreddeg â'r broses amlasiantaeth.

Atgyfeiriad (yr heddlu neu ffynhonnell atgyfeirio arall)

↓
gwasanaethau cymdeithasol


↓
trafodaeth strategaeth (o fewn 48 awr) → dgp *

↓
Asesiad Cychwynnol (o fewn 7 niwrnod) → dgp *

↓
Cyfarfod Strategaeth (o fewn 8 niwrnod) → dgp*

CAMAU GWEITHREDU POSIB

- Dim Gweithredu Pellach * (dgp)
- asesiad ymddygiad rhywiol niweidiol arbenigol
- asesiad craidd
- Ymholiadau Amddiffyn Plant dan A47
- AP/'plentyn mewn angen'



* mae'n rhaid i'r sail resymegol ar gyfer Dim Gweithredu Pellach gael ei chofnodi'n glir